# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 23 Gorffennaf 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

9 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

11 Cwestiynau i un o gynrychiolwyr y Comisiwn

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Ac ystyried ein profiad o'r gaeaf diwethaf yn y DU, pa gynlluniau sydd wedi cael eu gwneud i baratoi ar gyfer amodau tywydd eithafol posibl yng Nghymru'r gaeaf hwn. (WAQ56272)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Cadeiriais un o gyfarfodydd Fforwm Cymru Gydnerth ym mis Ebrill lle cafodd adroddiad cychwynnol ar effaith tywydd garw yng Nghymru ei ystyried. Cytunwyd yn y cyfarfod hwnnw y dylid sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaethol i ymgymryd â'r gwaith o baratoi ar gyfer y gaeaf ar draws y sector cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyflenwadau halen a chynnal y seilwaith drafnidiaeth. At hynny, mae'r grŵp yn gyfrifol am fonitro paratoadau parhad busnes ar draws y gwasanaethau brys, y GIG a llywodraeth leol.

Disgwylir i'r Grŵp gyflwyno adroddiad i Fforwm Cymru Gydnerth ym mis Hydref ar y gwaith i'w gwblhau cyn y gaeaf.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Mewn sawl ateb i gwestiynau ysgrifenedig y mae'r Prif Weinidog wedi ateb drwy ddatgan 'Ni chaiff yr wybodaeth hon ei chadw'n ganolog' ac a fyddai yn darparu ffigurau ar gyfer pob blwyddyn er 1999. (WAQ56273)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Ers dod yn Brif Weinidog ym mis Rhagfyr 2009 rwyf wedi rhoi'r ymateb hwnnw i un cwestiwn ysgrifenedig. Byddai'r gost o ddarparu manylion am y cyfnod 1999-2009 yn afresymol; caiff pob ymateb i gwestiynau ysgrifenedig eu cyhoeddi ac maent ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu manylion yr holl ymweliadau tramor sydd wedi'u gwneud ganddo er Hydref 2008, gan gynnwys y gyrchfan, y pwrpas a chyfanswm y gost gan gynnwys swyddogion. (WAQ56276)

***Rhoddwyd ateb ar 5 Awst 2010***

Ers dod yn Brif Weinidog ym mis Rhagfyr 2009, rwyf wedi ymgymryd â phedwar ymweliad dramor. Mae'r manylion fel a ganlyn:

| **Cyrchfan** | **Dyddiad** | **Diben** | **Yn cyd-deithio** | **Cyfanswm cost (£)** |
|---|---|---|---|---|
| **2009** | | | | |
| Copenhagen | 14 Rhagfyr | Cynhadledd Newid yn yr Hinsawdd | Ysgrifennydd Preifat a Swyddog y Wasg | 6,263 |
| **2010** | | | | |
| Stuttgart | 7 Chwefror | Cyfarfod â Rheolwyr Bosch | Y Dirprwy Brif Weinidog, Ysgrifennydd | 2,562* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Preifat ac un Swyddog Polisi | |
| Brwsel | 22 Chwefror | Derbyniad Dydd Gwyl Dewi | Ysgrifennydd Preifat | 1,800 |
| Brwsel | 7 Gorffennaf | Cyfarfod ag Arlywydd y Comisiwn Ewropeaidd | Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd Preifat | 2,748 |

- heb gynnwys cost swyddog nad yw ar gael ar hyn o bryd

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a’r Gyllideb*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar gynghorwyr arbennig yn 2008-09, gan gynnwys cyflogau, treuliau a'r holl gostau cysylltiedig. (WAQ56274)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Cafodd £409,888 ei wario ar Gynghorwyr Arbennig (tâl, pensiynau a chyfraniadau Yswiriant Gwladol) yn 2008-09. Nid yw manylion unrhyw wariant gan Gynghorwyr Arbennig ar gael ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau ar gyfer y milltiroedd ffordd a deithiwyd gan y Gwasanaeth Ceir Swyddogol ar gyfer y flwyddyn 2008/9 ac ar gyfer yr un cyfnod, a allai hefyd ddarparu cyfanswm y costau a gronnwyd gan Weinidogion yn defnyddio cwmnïau gyrwyr, tacsis neu deithio ar ffyrdd. (WAQ56275)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Ysgrifennaf atoch a chaiff copi o'r llythyr ei gyhoeddi ar y rhyngrwyd.

**Chris Franks (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniad y cyfarfod pedair ochr rhwng Gweinidogion Cyllid y DU a gynhaliwyd ar 15fed Gorffennaf 2010. (WAQ56280)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Mai 2011***

Prif ffocws trafodaethau Cyfarfod Pedairochrog y Gweinidogion Cyllid oedd y rhagolwg economaidd heriol a'r Adolygiad o Wariant sydd ar ddod.

Nodais yn glir y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae ei rhan i fynd i'r afael â'r diffyg, ond rydym yn ymrwymedig i wneud hyn heb niweidio'r broses adfer nac effeithio'n andwyol ar y gwasanaethau y mae pobl yng Nghymru yn dibynnu arnynt. Dyna pam rwyf yn amddiffyn buddsoddiad cyfalaf eleni, gan gynnwys y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Pwysleisiodd pob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig bwysigrwydd ymgysylltu'n llwyr â'r Adolygiad o Wariant. Cafwyd trafodaeth helaeth ar yr angen i Weinyddiaethau Datganoledig gael cymaint o hyblygrwydd â phosibl i sicrhau ein bod yn gallu rheoli heriau ariannol y blynyddoedd nesaf mor effeithiol â phosibl.

Cytunwyd y byddai swyddogion yn parhau i gydweithio ar y materion hyn cyn i Gyfarfod Pedairochrog arall gael ei gynnal yn Belfast ym mis Medi.

Yn dilyn y Cyfarfod Pedairochrog, cefais gyfarfod dwyochrog â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys a chodais amrywiaeth eang o faterion sy'n berthnasol i Gymru, megis prosiectau buddsoddi cyfalaf sy'n bwysig i Gymru, gan gynnwys trydanu'r prif gyswllt rheilffordd rhwng Llundain ac Abertawe. Gwnaethom drafod Adroddiad terfynol Comisiwn Holtham hefyd, yn arbennig pwysigrwydd gwneud cynnydd ar gyllid teg i Gymru yn yr Adolygiad o Wariant.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau nifer y prosiectau gwariant cyfalaf a ddechreuwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon a beth yw amcangyfrif eu gwerth. (WAQ56285)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn pennu cyllidebau cyfalaf ar gyfer pob portffolio. Dyrannwyd cyfanswm cyfalaf o £1.644 biliwn i'r Prif Grwpiau Gwariant yn y Gyllideb Atodol; mae hyn ar ôl dyraniadau'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol (SCIF) ac ar ôl i gyfalaf gael ei ddwyn ymlaen i helpu i wynebu heriau'r dirwasgiad. Mae dyraniadau cyfalaf yn y cyllidebau hynny yn fater i bob Gweinidog yn unigol.
Caiff dyraniadau cyfalaf o'r SCIF eu dyrannu a'i monitro yn ganolog ac yn 2010-11 mae £232.4 miliwn wedi'i roi i'r prosiectau canlynol o'r Gronfa hon:-

**Arian a drosglwyddir i Brosiectau Cyfran 1 SCIF yng nghyllideb atodol Gorffennaf 2010**

| **Adran** | **Prosiect** | **Rhagolwg Proffil SCIF 10/11 £m** |
|---|---|---|
| **APADGOS** | **Adeiladu Ysgolion ac Adfywio Cymunedol yng Nghasnewydd** | 0.6 |
| | **Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i Gymru Gyfan** | 1.6 |
| | **Ysgolion Uwchradd Wrecsam** | 3 |
| | **Adeiladu Campws Addysg a Chymunedol Blaenafon** | 2.8 |
| **Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Gweledigaeth Iechyd Abertawe – Ad-drefnu gwasanaethau gofal iechyd** | 63 |
| | **Rhoi Rhaglen Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan ar waith** | 13.8 |
| | **Adeiladu Canolfan Iechyd a Lles Merthyr** | 8 |
| **Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai** | **Rhaglen Adeiladu Carbon Isel Cymru Gyfan** | 15 |
| | **Darparu Safleoedd Treulio Anerobig ledled Cymru** | 2 |
| | **Darparu 400+ o Dai Fforddiadwy ledled Cymru** | 11 |
| | **Cyflymu'r Rhaglen Amddiffyn rhag Llifogydd ac Amddiffyn yr Arfordir** | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| | **Creu Rhanbarth Carbon Isel ym Mlaenau'r Cymoedd** | 4 |
| **Treftadaeth** | **Menter Treftadaeth Ddiwylliannol Cymru Gyfan** | 1.3 |
| | **Prosiect Digideiddio Ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru** | 1 |
| **CSA** | **GIS Corfforaethol** | 0.5 |
| | **CYFANSWM** | **132.6** |

**Arian a drosglwyddir i Brosiectau Cyfran 2 SCIF yng nghyllideb atodol Gorffennaf 2010**

| **Adran** | **Prosiect** | **Rhagolwg Proffil SCIF 10/11 £m** |
|---|---|---|
| **APADGOS** | **Learning Works Glynebwy** | 35 |
| | **Campws Trelai Taf** | 12 |
| | **Adeiladau Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ar gyfer Gwynedd** | 5.3 |
| **Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Canolfan Gofal Brys Ysbyty Tywysog Siarl** | 8.5 |
| | **Ysbyty Plant Cymru** | 8 |
| **Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai** | **Pecyn Tai Fforddiadwy a Chymorth Tai** | 20 |
| **Treftadaeth** | **Goleuadau Ecolegol** | 1 |
| **Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol** | **3 Canolfan Cydgysylltu Strategol** | 10 |
| | **CYFANSWM** | **99.8** |

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Ar gyfer pob blwyddyn er 1999, a wnaiff y Gweinidog roi manylion sawl ysgol newydd sydd wedi cael ei hadeiladu yng Nghymru; ble mae'r ysgolion hynny a nodi a ydynt yn ysgolion ffydd ai peidio. (WAQ56268)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Ni chaiff y wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani ei chasglu'n ganolog. Dim ond ar gyfer prosiectau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfrannu atynt drwy'r Grant Gwella Adeiladau Ysgolion (SBIG) y mae gwybodaeth ar gael - nid oes gennym ddata ar gyfer prosiectau a ariennir gan awdurdodau lleol yn unig.

Dim ond ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-03 y mae'r wybodaeth hon ar gael a byddai'r gost o'i darparu wedi bod yn afresymol.

Fodd bynnag, drwy raglen Grant Cyfalaf Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir, gallaf nodi bod saith o ysgolion eglwysig Gwirfoddol a Gynorthwyir wedi'u hadeiladu ers 2000, ac mae un wrthi'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd.
Ysgol Gynradd Gatholig Padre – yn cymryd lle 2 ysgol gynradd fach – Torfaen.
Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant - ysgol uwchradd newydd - Casnewydd
Ysgol Gynradd Priordy yr Eglwys yng Nghymru - ysgol newydd - Powys
Ysgol Gyd-ffydd Sant Joseff - gwaith adnewyddu mawr - Wrecsam
Ysgol Gynradd St Oswald yr Eglwys yng Nghymru - ysgol newydd - Sir Benfro
Ysgol Bro Dewi yr Eglwys yng Nghymru - ysgol newydd - Sir Benfro
Ysgol Gynradd Gatholig Mary Immaculate - ysgol newydd - Sir Benfro
Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath - ysgol uwchradd newydd - Pen-y-bont ar Ogwr.

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl cais am astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ysgolion newydd a gafwyd ym mhob un o'r 10 mlynedd diwethaf ym mhob ardal Awdurdod Lleol. (WAQ56269)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ysgolion newydd a a) dyfarnwyd a b) gwrthodwyd ym mhob ardal Awdurdod Lleol ym mhob un o'r 10 mlynedd diwethaf. (WAQ56270)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: Sawl astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ysgolion ffydd newydd a gyflwynwyd ym mhob ardal Awdurdod Lleol ym mhob un o'r 10 mlynedd diwethaf. (WAQ56271)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Roedd Grant Gwella Adeiladau Ysgolion (SBIG) Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyflwynwyd yn 2002-03 yn grant cyfalaf ychwanegol a roddwyd i awdurdodau lleol yn bennaf ar gyfer gwella adeiladau ysgolion. Yn ystod y cyfnod 2002-03 i 2009-10 ni chyflwynwyd unrhyw gynigion am astudiaethau dichonoldeb gan awdurdodau lleol.
Fodd bynnag, fel rhan o'r broses drawsnewid tuag at weithredu Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, cafodd awdurdodau eu gwahodd i gyflwyno cynigion i'w hystyried ar gyfer y Gyfran Gyntaf a'r Ail Gyfran o arian trawsnewidiol i fynd i'r afael â gwaith Cynllunio a Galluogi yn unol â Chynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain mewn perthynas â phrosiectau adeiladau ysgolion ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-10. Hefyd, cyflwynodd nifer o awdurdodau gynigion i wneud gwaith Cynllunio a Galluogi ar Drydedd Cyfran yr arian trawsnewidiol, ond nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yma.
Mewn perthynas ag ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir, darperir arian drwy Raglen Grant Cyfalaf Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac nid drwy SBIG na grant trawsnewid ac felly ni fyddai ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn ffurfio rhan o gais awdurdod am waith Cynllunio a Galluogi. Fodd bynnag, bydd Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn defnyddio dull hollgynhwysol a bydd awdurdodau lleol yn cyflwyno Rhaglenni Amlinellol Strategol a fydd hefyd yn cynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.
Hefyd, efallai yr hoffech wybod bod adolygiad llawn o bolisïau cyfredol, gan gynnwys gwasanaeth addysg yr Eglwys yng Nghymru, newydd ei gwblhau a gellir gweld manylion yr adolygiad yn www.eglwysyngnghymru.org.uk
Mae'r awdurdodau a lwyddodd i sicrhau arian ar gyfer gwaith Cynllunio a Galluogi o Gyfran Gyntaf ac Ail Gyfran y rhaglen grant trawsnewid fel a ganlyn:

Pen-y-bont ar Ogwr - 2 brosiect
Sir Gaerfyrddin - 2 brosiect
Ceredigion – 1 prosiect
Conwy - 3 phrosiect
Sir Ddinbych - 1 prosiect
Merthyr Tudful - 2 brosiect
Sir Fynwy - 1 prosiect
Casnewydd - 1 prosiect
Sir Benfro - 1 prosiect

Powys - 1 prosiect
Rhondda Cynon Taf - 5 prosiect
Abertawe - 1 prosiect
Bro Morgannwg - 2 brosiect
Wrecsam - 3 phrosiect.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gyfran o fyfyrwyr a gyflawnodd bump neu ragor o raddau A* - C TGAU yn 2008 ac yn 2009 ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. (WAQ56281)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Caiff y wybodaeth ddiweddaraf am ddisgyblion sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 (cymwysterau sydd gyfwerth â 5 TGAU neu fwy ar raddau A* i C) ei chyhoeddi'n flynyddol yn y cyhoeddiad "Ysgolion yng Nghymru: Perfformiad mewn Arholiadau", y gellir dod o hyd iddo yma: http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2010/100525/?lang=cy
Dangosir y wybodaeth y gofynnir amdani yn y tabl isod.

**Canran y disgyblion 15 oed a gyflawnodd drothwy Lefel 2, 2008-2009, (a) (b)**

| | 2007/08 | 2008/09 |
|---|---|---|
| Isle of Anglesey | 57.5 | 57.8 |
| Gwynedd | 62.4 | 64.5 |
| Conwy | 60.4 | 62.3 |
| Denbighshire | 51.5 | 58.1 |
| Flintshire | 57.3 | 63.6 |
| Wrexham | 53.7 | 55.6 |
| Powys | 66.6 | 70.8 |
| Ceredigion | 61.6 | 68.2 |
| Pembrokeshire | 60.8 | 63.1 |
| Carmarthenshire | 62.2 | 62.1 |
| Swansea | 57.8 | 59.9 |
| Neath Port Talbot | 63.4 | 63.1 |
| Bridgend | 56.0 | 59.5 |
| The Vale of Glamorgan | 68.7 | 72.5 |
| Rhondda, Cynon, Taff | 52.8 | 56.5 |
| Merthyr Tydfil | 45.8 | 52.8 |
| Caerphilly | 52.2 | 54.3 |
| Blaenau Gwent | 46.0 | 49.1 |
| Torfaen | 56.6 | 57.2 |
| Monmouthshire | 57.7 | 60.8 |
| Newport | 54.7 | 56.4 |
| Cardiff | 55.6 | 58.6 |
| Wales (c) | 58.0 | 60.7 |

(a) Includes all qualifications approved for pre-16 use in Wales.
(b) Ages at the start of the academic year. Includes results for 15 year old pupils, in maintained schools, achieved during the academic year and any examinations taken at earlier age.
(c) Includes independent schools and pupils from a non-English or Welsh background education.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sawl myfyriwr rhyngwladol a addysgwyd yng Nghymru yn 2007/08 ac yn 2008/09. (WAQ56282)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y myfyrwyr rhyngwladol a gofrestrodd mewn Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru:

| | **2007/08** | **2008/09** |
|---|---|---|
| **Sefydliadau Addysg Uwch** | | |
| Myfyrwyr o'r UE (nad ydynt o'r DU) | 6,050 | 6,255 |
| Myfyrwyr eraill o dramor | 11,245 | 13,105 |
| **Sefydliadau Addysg Bellach** | | |
| Myfyrwyr o'r UE (nad ydynt o'r DU) | 540 | 535 |
| Myfyrwyr eraill o dramor | 280 | 325 |

Ffynonellau: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

Nodiadau: Mae'r ffigurau'n cynnwys pob unigolyn a gofrestrodd ar lefel Addysg Bellach neu Addysg Uwch ac maent yn dangos nifer y dysgwyr unigol mewn sefydliadau Addysg Uwch a sefydliadau Addysg Bellach.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o lefelau triwantiaeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn mae manylion ar gael ar eu cyfer er 2007. (WAQ56283)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Ceir data ar y gyfran o sesiynau hanner diwrnod a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb heb ganiatâd yn ôl cyfrwng yr ysgol yn y tabl isod.

Canran absenoldeb heb ganiatâd ymhlith disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, yn ôl cyfrwng yr ysgol

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sawl ymosodiad a fu ar athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 2006.(WAQ56284)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Caiff data ar waharddiadau oherwydd ymosodiadau neu drais yn erbyn aelodau o staff ei gasglu fel rhan o'r broses o fonitro gwaharddiadau parhaol a gwaharddiadau tymor sefydlog o ysgolion.
Mae cyfanswm y gwaharddiadau parhaol wedi lleihau dros y cyfnod hwn o amser, felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu nifer y gwaharddiadau parhaol oherwydd ymosodiadau neu drais yn erbyn aelodau o staff dros amser. Dangosir y wybodaeth hon yn y tabl isod.

Gwaharddiadau oherwydd ymosodiadau neu drais yn erbyn aelodau o staff, 2005/06 - 2008/09 (a) (b)

*Number of exclusions*

| Year | Permanent exclusions | Fixed-term exclusions | Total |
|---|---|---|---|
| 2005/06 | 50 | 932 | 982 |
| 2006/07 | 41 | 959 | 1,000 |
| 2007/08 | 39 | 874 | 913 |
| 2008/09 | 33 | 999 | 1,032 |

Source: Exclusions monitoring return

(a) Data relate to the number of exclusions due to assault or violence towards staff, not the number of pupils being excluded for these reasons. A pupil being excluded for assault or violence towards staff twice during an academic year will be counted twice.

(b) Includes exclusions from maintained primary and secondary schools as well as special schools and Pupil Referral Units.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sawl milltir o'r M4 yng Nghymru sydd dan derfynau cyflymder is na'r terfyn cyflymder cenedlaethol ar hyn o bryd. (WAQ56278)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Ar hyn o bryd mae 10.94 o filltiroedd o'r M4 yng Nghymru o dan gyfyngiadau cyflymder sy'n is na'r terfyn cyflymder cenedlaethol. Ceir cyfyngiad cyflymder parhaol o 50 milltir yr awr am 2.08 milltir ym Mhort Talbot ac yn ardal man casglu tollau Ail Groesfan Hafren am 0.96 milltir. Ceir 7.9 milltir arall o gyfyngiadau cyflymder 50 milltir yr awr rhwng Cyffyrdd 23a a 28 o amgylch Casnewydd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan yr union ddyddiad pan mae'n bwriadu gwneud cyhoeddiad pellach yng nghyswllt y cynllun newydd i helpu i ddod â gwasanaethau band eang i gymunedau gwledig ledled Cymru. (WAQ56279)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Cynhaliais weithdy yn Sioe Frenhinol Cymru ar 21 Gorffennaf 2010 i esbonio sut y bydd y cynllun newydd yn gweithio. Mae pecyn cais a gwefan newydd bellach ar gael i bobl, cymunedau a busnesau. Ceir rhagor o fanylion yn:

www.cymru.gov.uk/broadband

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sawl milltir o draffyrdd neu gefnffyrdd Cymru sydd dan derfynau cyflymder ar hyn o bryd sy'n is na'r terfyn cyflymder cenedlaethol a beth yw'r ffigur hwnnw ar ffurf canran. (WAQ56286)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Ar hyn o bryd mae 7.9 o filltiroedd o draffordd ac 20.76 o filltiroedd o gefnffordd yng Nghymru o dan gyfyngiadau cyflymder dros dro. Mae hyn yn cyfateb i 2.7% o'r rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru. Nid yw fy swyddogion wedi gorffen casglu gwybodaeth am y cyfyngiadau cyflymder parhaol ar draws y rhwydwaith cyfan hyd yma. Ysgrifennaf atoch â'r wybodaeth hon.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â BILl Hywel Dda ynghylch trosglwyddo cleifion hŷn o Ysbyty Bronglais i Ysbyty Tregaron ar gyfer triniaeth adsefydlu a pha gyfleusterau fydd ar gael i gleifion o'r fath o fis Ionawr 2011 ymlaen. (WAQ56257)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru ynghylch datblygu cyfleusterau adsefydlu amgen yn y dyfodol y byddai eu hangen er mwyn gofalu am gleifion hŷn yn Ysbyty Bronglais sydd yn aml yn cael eu trosglwyddo i Ysbyty Tregaron ar gyfer adsefydlu. (WAQ56258)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynlluniau sylweddol a allai ymwneud â datblygu cyfleusterau adsefydlu ar gyfer cleifion hŷn yn Ysbyty Bronglais sydd yn aml yn cael eu trosglwyddo i Ysbyty Tregaron ar gyfer adsefydlu. (WAQ56259)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Cyfrifoldeb Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yw darparu gwasanaethau ledled Gorllewin Cymru.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o histopatholegyddion a gyflogir yn amser llawn yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. (WAQ56260)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o histopatholegyddion a gyflogir yn amser llawn yn a) Ysbyty Bronglais; b) Ysbyty Llwynhelyg; c) Ysbyty Gorllewin Cymru; c) Ysbyty Tywysog Philip; e) Ysbyty Singleton ac f) Ysbyty Treforys. (WAQ56261)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o radiograffyddion sydd wedi cymhwyso'n llawn a gyflogir yn amser llawn yn a) Ysbyty Bronglais; b) Ysbyty Llwynhelyg; c) Ysbyty Gorllewin Cymru; c) Ysbyty Tywysog Philip; e) Ysbyty Singleton ac f) Ysbyty Treforys i sicrhau bod darpariaeth ar gael dros benwythnos. (WAQ56262)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar nifer y staff histopatholeg a gyflogwyd gan sefydliadau'r GIG ar 30 Medi 2008 ar gael ar wefan StatsCymru yn:
http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=1279.
ac ar gyfer radiograffwyr yn:
http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=3611.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o weithwyr iechyd proffesiynol a chlinigwyr sydd wedi cael eu gwahardd o ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ar dâl rhannol neu dâl amser llawn yn 2007, 2008 a 2009. (WAQ56263)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o weithwyr iechyd proffesiynol a chlinigwyr sydd wedi cael eu gwahardd ar dâl rhannol neu dâl amser llawn yn 2007, 2008 a 2009 yn: a) Ysbyty Bronglais; b) Ysbyty Llwynhelyg; c) Ysbyty Gorllewin Cymru; c) Ysbyty Tywysog Philip; e) Ysbyty Singleton ac f) Ysbyty Treforys. (WAQ56264)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda dros y tri mis diwethaf ynghylch gwella diagnosteg yn Ysbyty Bronglais. (WAQ56265)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Mae'r gwasanaethau diagnostig a ddarperir, gan gynnwys histopatholeg, yn fater ar gyfer y Bwrdd Iechyd Lleol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r BILl Hywel Dda newydd dros y 3 mis diwethaf ynghylch gwella pa mor aml cynhelir cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol a gynhelir drwy fideo-gynadledda rhwng Ysbyty Bronglais ac ysbytai eraill yn ardal BILl Hywel Dda. (WAQ56266)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Mater i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yw rheoli amlder a natur cyfarfodydd perthnasol y Tîm Amlddisgyblaethol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda BILl Hywel Dda dros y tri mis diwethaf ynghylch gwella amseroedd aros cleifion ar gyfer cyfeirio am fiopsïau ym mhrif ysbytai eraill yr ardal o Ysbytai Bronglais a Llwynhelyg. (WAQ56267)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Mae'r gwasanaethau diagnostig a ddarperir, gan gynnwys histopatholeg, yn fater ar gyfer y Bwrdd Iechyd Lleol.

## *Gofyn i un o Gynrychiolwyr y Comisiwn*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pan gymerodd Gweinidogion Llywodraeth y DU doriad cyflog o 5% yn dilyn Etholiad Cyffredinol 2010, a wnaeth Gweinidogion Cymru gymryd toriad tebyg yn eu cyflog. (WAQ56277)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Gorffennaf 2010***

**William Graham AC, Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad:**

Nid oes cyswllt rhwng cyflogau Gweinidogion Llywodraeth y DU a Gweinidogion Cymru. Cawsom gyfarwyddiadau ar 5 Mai 2010 gan Weinidogion Cymru na fyddai dyfarniad cyflog 2010-11 i ddeiliaid swyddi ychwanegol ar gyfer Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion, y Cwnsler Cyffredinol a'r Prif Chwip yn cael ei dderbyn. Daeth y penderfyniad hwn i rym o 1 Mai 2010 ymlaen.